

RHYS, EDWARD PROSSER (1901 - 1945), newyddiadurwr, llenor, a chyhoeddwr

Enw: Edward Prosser Rhys
Dyddiad geni: 1901
Dyddiad marw: 1945
Priod: Mary Prudence Rhys (née Hughes)
Rhiant: Elizabeth Rees
Rhiant: David Rees
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: newyddiadurwr, llenor, a chyhoeddwr
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi
Awduron: Katherine Williams, Evan David Jones

Ganwyd 4 Mawrth 1901 yn Pentremynydd, yn ardal Bethel (neu Trefenter fel y'i gelwir heddiw), Mynydd Bach, Sir Aberteifi, mab Elisabeth a David Rees. Gof o deulu o ofaint oedd ei dad. Symudodd y teulu wedi hynny i'r Morfa Du. Mynychai Ysgol Cofadail pan oedd yn fachgen, ac aeth i ysgol Ardwyn, neu yn iaith llyfr lòg ysgol Cofadail, 'Aberystwyth County School', Aberystwyth, yn Hydref 1914. Rhyw flwyddyn neu flwyddyn a hanner y bu yno gan i'w iechyd dorri i lawr, a bu gartref am tua thair blynedd yn wael. Wedi iddo wella aeth i weithio i swyddfa'r *Welsh Gazette*, Aberystwyth, ac yn 1919 aeth i Gaernarfon i swyddfa'r *Herald Cymraeg*. Dychwelodd i Aberystwyth yn 1921, a phan aeth *Y Faner* o Ddinbych i Aberystwyth yn 1923, penodwyd ef yn olygydd iddi, a bu'n olygydd *Y Faner* hyd ei farw ar 6 Chwefror 1945.

Dechreuodd ymhel â barddoniaeth yn gynnar a chyfrannodd gerddi i *Gymru'r Plant* pan yn ieuanc iawn. Yn 1924, yn eisteddfod genedlaethol Pont-y-pŵl, enillodd y goron ar ei bryddest 'Atgof', pryddest anghyffredin o ran ffurf a chynnwys, a phryddest a greodd dipyn o gynnwrf.

Ar ei briodas a Mary Prudence Hughes, Aberystwyth yn 1928, mabwysiadodd y ffurf Gymraeg Rhys ar ei gyfenw. Ganed iddynt un ferch. Yn y flwyddyn 1928 dechreuodd gyhoeddi llyfrau a ffurfio Gwasg Aberystwyth, gwasg a gynyddodd o flwyddyn i flwyddyn. Ffuriodd y 'Clwb Llyfrau Cymraeg', a bu yntau'n llwyddiant.

Yn 1923, cyhoeddodd ef a J. T. Jones gyfrol o farddoniaeth ar y cŷd, sef *Gwaed Ifanc* (Hughes a'i Fab), ac ni chyhoeddwyd dim o'i farddoniaeth wedyn ag eithrio mewn cylchgronau ac ar y radio hyd 1950, pan gyhoeddwyd *Cerddi Prosser Rhys* gan Wasg Gee. Er ei fod yn fardd da, efallai mai fel golygydd a chyhoeddwr y bydd ei enw byw. Yr oedd yn aelod o Blaid Genedlaethol Cymru o'r cychwyn, a buan y dangosodd ei ysbryd cenedlaethol ar dudalennau'r *Faner*. Ond ni chafodd fod yn rhydd a dilyfethair yn ei ysgrifau hyd oni symudwyd *Y Faner* yn ôl i'w hen gartref yn Ninbych yn Ionawr 1939. Yn ei golofn wythnosol, 'Led-led Cymru', yn *Y Faner*, daeth yn gyfaill i bobl nad adwaenai ef fel arall. Dyn cefn gwlad ydoedd, a phan ysgrifennai am gymeriadau a llenorion cefn gwlad yr oedd ar ei orau.

Fel chyhoeddwr, denodd rai o brif lenorion Cymru i gyhoeddi eu llyfrau drwy ei wasg. Cyhoeddodd lyfrau ysgol hefyd.

Awduron

Katherine Williams, (1891 - 1985)

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Gwybodaeth personol

Y Traethodydd, Hydref 1977, 181-5

Rhisiart Hincks, *E. Prosser Rhys, 1901-1945* (Llandysul 1980)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Edward Prosser Rhys**

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 50881483

Wikidata: Q16658495

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwydwr
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government